**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**

—

**Equality and Social Justice Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEquality@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEquality
0300 200 6565

Yr Arglwydd Bellamy CB
Yr Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol
Y Weinyddiaeth Gyfiawnder

3 Gorffennaf 2023

Annwyl Arglwydd Bellamy

Adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol: 60% – Rhoi llais iddyn nhw: Anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu yn y system cyfiawnder ieuenctid

Diolch am eich ymateb i'n llythyr ynghylch ein hymchwiliad i brofiadau menywod yn y system cyfiawnder troseddol, a nodwyd gennym yn ein cyfarfod ar 19 Mehefin 2023.

Yn ddiweddar, gwnaethom gyhoeddi adroddiad arall, sy'n ystyried profiadau pobl sydd ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu yn y system cyfiawnder ieuenctid. Mae copi wedi'i atodi er gwybodaeth. Mae gan o leiaf 60 y cant o'r bobl ifanc sy'n ymwneud â'r system cyfiawnder ieuenctid – ac yn fwy tebygol, 80 y cant ohonynt – anawsterau lleferydd, iaith a chyfathrebu, o gymharu â thua 10 y cant o blant a phobl ifanc yn gyffredinol. Yn anffodus, mae gormod o bobl ifanc sy'n wynebu'r heriau hyn yn dod i gysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol yn y pen draw, ac mae'r cymorth y maent yn ei gael yn y system honno'n dameidiog ac yn annigonol.

Mae eich llythyr dyddiedig 12 Mehefin yn nodi'r ffaith, er bod awdurdodau a gedwir yn ôl ac awdurdodau datganoledig yn cydweithio'n effeithiol er mwyn darparu'r gwasanaethau y maent yn gyfrifol amdanynt, fod y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn ariannu'r holl wasanaethau y mae'n gyfrifol amdanynt. Byddem yn ddiolchgar, felly, am eich barn ynghylch yr egwyddor Buddsoddi i Arbed sydd wedi'i nodi yn yr adroddiad, ac yn benodol mewn perthynas ag Argymhellion 3 a 5.

Mae Argymhelliad 3 yn galw am leoli therapyddion lleferydd ac iaith penodedig mewn dalfeydd yng ngorsafoedd heddlu ledled Cymru. Pa ystyriaeth y gallai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ei rhoi i leoli mwy o therapyddion lleferydd ac iaith mewn dalfeydd yng ngorsafoedd heddlu? O ystyried y ffaith mai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder fyddai'n elwa fwyaf ar y manteision a fyddai'n deillio o gadw pobl ifanc allan o garchardai, byddai'n ddefnyddiol pe gallech nodi eich safbwynt ar y mater hwn, gan gynnwys y posibilrwydd o fwy o gydgysylltu a chydweithio rhwng Llywodraethau.

Mewn ymateb i'r adroddiad, cadarnhaodd Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith ei fod mewn cysylltiad rheolaidd â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a'i fod yn rhoi arweiniad a chymorth i swyddogion ar gyfer yr offeryn sgrinio AssetPlus. Rydym o'r farn bod y cydweithio hwn yn hollbwysig. Nododd y Coleg Brenhinol hefyd fod hyfforddiant ar gyfer offeryn o'r fath yn hanfodol er mwyn

sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol. Felly, a fyddai modd i chi nodi pa hyfforddiant a gynigir at y diben hwn? Pa gyfraniad y gallai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ei wneud, o bosibl, er mwyn sicrhau bod therapyddion lleferydd ac iaith yn cael rhywfaint o ymwneud â Thimau Troseddau Ieuenctid, a hynny er mwyn ymestyn yr arfer da a welsom gan dimau Castell-nedd Port Talbot a Bae Abertawe, a oedd yn destun canmoliaeth gennym?

Rydym yn ddiolchgar i chi am ystyried ein cais, ac edrychwn ymlaen at gael eich ymateb.

Yn gywir,



Jenny Rathbone AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
Senedd Cymru